# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020

**Adran:**

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Gweinidog sy'n gyfrifol:**

**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Dyddiad dechrau:**

**Chwefror 2020**

**Cyfeiriad e-bost cyswllt:**

*RISCAct2016@gov.wales*

# Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

**Cefndir**
Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â’r rheoliadau drafft Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020 (“Rheoliadau 2020”) sy'n diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) Act 2016 ("Deddf 2016") ac yn gwneud nifer o ddiwygiadau i reoliadau sy'n effeithio ar y gweithlu gofal cymdeithasol a’r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Oherwydd yr amrywiaeth o feysydd a gwmpesir yn y Rheoliadau hyn mae'r asesiad effaith hwn wedi'i grwpio'n ddwy ran – y gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

<u>Y gweithlu gofal cymdeithasol</u>

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio:

- *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017* i’w gwneud yn orfodol bod gweithwyr gofal cartref yn cael eu cofrestru o 1 Ebrill 2020 ac i osod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gyflogi neu i roi contract am wasanaethau i’r unigolion hynny yn unig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru;
- *Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru)* i estyn y gofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol, a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru er mwyn cynnwys unigolion a gyflogir neu a gymerir ymlaen dan gontract ar gyfer gwasanaethau mewn perthynas â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion a gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd o 1 Ebrill 2020. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys estyniad i'r gofyniad sydd eisoes yn bodoli sef, lle bo darparwr gwasanaeth yn cyflogi person, ac eithrio fel rheolwr, i ddarparu gofal a chymorth mewn cysylltiad â chartref gofal a ddarperir yn llwyr neu'n bennaf ar gyfer plant neu wasanaeth llety diogel, bod yn rhaid i'r person fod wedi'i gofrestru'n weithiwr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson 'sydd wedi ei gymryd ymlaen dan gontract am wasanaeth’ gan ddarparwr gwasanaeth (gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, neu wasanaeth llety diogel) fod wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Nod y diwygiadau arfaethedig hyn yw cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol a chynyddu sicrwydd y cyhoedd bod gan y categorïau hyn o weithwyr gofal cymdeithasol y sgiliau a'r cymwysterau i wneud eu swyddi mewn modd proffesiynol a thosturiol a'u bod yn gweithio yn ôl Codau Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol cytunedig. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu darpariaethau sydd eisoes ar waith ar gyfer cyflogi rheolwyr cartrefi gofal i oedolion;

cartrefi gofal i blant (a gweithwyr); a gwasanaethau cymorth cartref ac yn ceisio codi proffil y sector.

Gwasanaethau gofal cymdeithasol

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017* i alluogi Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, i gael gwybodaeth gan yr holl gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau byrddau neu bwyllgorau (heblaw awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol) wrth iddynt gofrestru fel darparwyr gwasanaethau. Ar hyn o bryd, dim ond unigolion, partneriaid a'r rhai sy'n gwneud cais ar ran sefydliadau darparwyr gwasanaethau sy'n cael gofyn am y wybodaeth hon.

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o'r Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y dylai AGC (gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru) roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth.

Yn ogystal, bydd Rheoliadau 2020 yn diwygio'r gyfres o reoliadau darparwyr gwasanaeth, a wnaed o dan adrannau 27 a 28 o Ddeddf 2016, sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae'r diwygiadau yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau hysbysu AGC pan fydd newidiadau o ran eu hymddiriedolwyr neu aelodau ei byrddau neu eu pwyllgorau (yn dibynnu ar strwythur eu sefydliad). Ar hyn o bryd, dim ond darparwyr gwasanaethau sy'n bartneriaethau neu'n gyrff corfforaethol sy'n cael eu hysbysu.

Y bwriad yw y bydd Rheoliadau 2020 yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2020, gyda dyddiad cychwyn arfaethedig o 1 Ebrill 2020.

**Effaith**

Y gweithlu gofal cymdeithasol

Mae'r cynigion yn cefnogi nod strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: "Ffyniant i Bawb" o flaenoriaethu gofal cymdeithasol fel sector o bwysigrwydd cenedlaethol a chodi statws y proffesiwn.  Dyna pam yr ydym yn teimlo ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yng Nghymru yn cydnabod y cyfraniad pwysig ac arwyddocaol y mae gofal cymdeithasol yn ei wneud i iechyd a llesiant pobl sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas.  Fel yr amlinellwyd yn "Cymru Iachach", rydym am gael system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda'i gilydd fel bod pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal gan wahanol sefydliadau yn cael gwasanaeth mewn ffordd ddi-dor. Rydym am sicrhau, waeth pa sefydliad sy'n darparu gofal a chymorth, eu bod yn cynnal yr un gwerthoedd mewn perthynas â phob agwedd ar gymdeithas, heb ystyried oedran, rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, incwm teuluol na lleoliad.

Nod Llywodraeth Cymru wrth broffesiynoli'r gweithlu yw sicrhau bod y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gydnabod yn eang fel un sy'n ymroddedig, yn fedrus iawn, wedi'i hyfforddi'n dda ac yn gymwys i ddarparu gofal proffesiynol a thosturiol.  Trwy’r drefn gofrestru, rydym am roi mwy o gyfleoedd i'r gweithlu barhau â'u datblygiad drwy gael gwell mynediad i'r adnoddau a'r hyfforddiant a ddarperir drwy reoleiddiwr y gweithlu.  Mae ein cynigion i gofrestru'r gweithlu hefyd yn ceisio rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, pan na lwyddir i gyrraedd y safon neu pan fydd methiannau’n digwydd, bod pobl yn atebol i gorff rheoleiddio yn union fel y mae eu cydweithwyr ym maes gofal iechyd.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Mae AGC o'r farn bod cael gwybodaeth gan wneuthurwyr penderfyniadau allweddol mewn sefydliadau darparwyr gwasanaethau (a allai fod yn gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu aelodau o fyrddau neu bwyllgorau, gan ddibynnu ar y math o sefydliad) am eu hymwneud blaenorol â rhedeg gwasanaethau rheoleiddiedig yn ffactor pwysig wrth bennu addasrwydd darparwyr gwasanaethau sy'n sefydliadau. Bydd hyn yn galluogi AGC i godi'r llen gorfforaethol ac asesu addasrwydd y bobl hynny sy'n gweithredu fel y 'meddwl sy'n rheoli' y sefydliad sy'n ceisio cofrestru. Bydd defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, AGC) ei hystyried wrth benderfynu ar addasrwydd darparwyr gwasanaeth yn galluogi AGC i ystyried yr wybodaeth a nodir uchod wrth benderfynu ar addasrwydd darparwr gwasanaeth - h.y. gwybodaeth gan yr haen uchaf o wneuthurwyr penderfyniadau mewn cyrff corfforaethol a chyrff anghorfforedig (ac eithrio awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol) ynghylch ceisiadau blaenorol i gofrestru, neu gofrestriadau, o dan Ddeddf 2016, Deddf Safonau Gofal 2000 neu ddeddfau perthnasol eraill yng ngweddill y DU.

Credwn hefyd ei bod yn bwysig fod AGC yn cael ei hysbysu o unrhyw newidiadau i ymddiriedolwyr ac aelodau byrddau neu bwyllgorau er mwyn galluogi AGC i gynnal trosolwg digonol o'r holl ddarparwyr gwasanaethau, beth bynnag fo'u hendid cyfreithiol.

## Casgliad

1. Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cael eu cynnwys yn y broses o'i ddatblygu?

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 26 Gorffennaf a 16 Hydref 2019. Cafodd y dogfennau ymgynghori eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys ffurflen ymateb y gellid ei chyflwyno drwy e-bost neu mewn copi caled.

Darparwyd pob fersiwn o'r ymgynghoriad ar y dudalen we ganlynol -

https://llyw.cymru/rhoi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016-ar-waith

https://gov.wales/implementation-regulation-and-inspection-social-care-wales-act-2016

Cafodd manylion yr ymgynghoriad eu cylchredeg i ystod o randdeiliaid allweddol a chyrff cynrychioliadol gan gynnwys pobl hŷn (hy Age Cymru), grwpiau plant (hy Voices From Care Cymru) grwpiau anabledd (hy Anabledd Cymru) a grwpiau lleiafrifol a grwpiau ethnig (hy Race Council Cymru) a Chomisiynydd y Gymraeg.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori yng Nghaerdydd a Wrecsam i gyflwyno'r cynigion drafft i randdeiliaid ac i glywed unrhyw gwestiynau neu sylwadau yn uniongyrchol. Daeth cyfanswm o 20 o bartïon â buddiant o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i'r digwyddiadau hyn, a oedd yn anelu at annog rhanddeiliaid i ymateb ac i alluogi'r rhai sy'n mynychu i:

- gael trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol drafft a newidiadau allweddol a ddaw i rym yn ei sgil;
- gwirio eu dealltwriaeth o'r cynigion a gofyn am eglurder, os oes angen;
- ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer eu swydd a'u sefydliad.

Defnyddiodd Llywodraeth Cymru sawl fforwm arall hefyd megis y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol ar gyfer gofyn cwestiynau i randdeiliaid y sector allweddol ac ateb unrhyw gwestiynau cychwynnol ar y rheoliadau drafft neu gyfeiriad y polisi.

## 2. Beth yw'r effeithiau mwyaf sylweddol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

*Effeithiau cadarnhaol*

Mae cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi proffil y sector gofal cymdeithasol a'r rôl hanfodol sydd ganddo wrth gynnal iechyd a llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth. Mae'r rheoliadau'n anelu at sicrhau y caiff y gweithlu fynediad i'r fframweithiau hyfforddi a datblygu cadarn a'u bod yn ymrwymo i'r cod ymarfer perthnasol i sicrhau bod safonau'n cael eu cadw.

O safbwynt plant a phobl ifanc mae ein hasesiad yn awgrymu y bydd effaith gadarnhaol cyffredinol ar y grŵp hwn gan y bydd cofrestru'r gweithlu yn gwella'r strwythurau a'r hyfforddiant mewn perthynas â'r rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi. Bydd y rheoliadau'n sicrhau bod fframweithiau hyfforddi a datblygu yn eu lle i'r holl staff sy'n darparu gofal a chymorth i sicrhau bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol yn gweithio yn yr amgylcheddau hyn. Maent yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r staff gytuno i'r cod ymarfer perthnasol i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal er mwyn sicrhau y bydd gweithwyr yn destun gwaith craffu gan reoleiddiwr y gweithlu, ac yn atebol iddo, os bydd damwain yn digwydd neu os bydd safonau gofal a chymorth yn syrthio islaw'r lefelau a ddisgwylir.

Gwnaeth y mwyafrif o bobl a ymatebodd i'n cwestiynau ar yr effeithiau posibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig naill ai gytuno neu dueddu i gytuno y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn. Roedd rhai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad yn adlewyrchu cyfansoddiad y gweithlu gofal cymdeithasol - mae rhyw 48% o'r gweithlu gofal a chymorth a gomisiynwyd dros 50 oed ac mae 88% yn fenywod - ac mae hyn yn achosi rhai pryderon ychwanegol ynghylch cost cofrestru, llythrennedd cyfrifiadurol ymhlith gweithwyr hŷn, a hygyrchedd hyfforddiant. Materion yw'r rhain y byddwn yn eu trafod â rheoleiddiwr y gweithlu, sy'n gyfrifol am y broses gofrestru ac am y llwybrau cymwysterau.

O safbwynt yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, bydd y gweithlu a rheoleiddwyr y gwasanaeth, sef Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn gyfrifol am ddiogelu gwybodaeth o dan ofynion presennol Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac ni châi'r data hwn ei rannu â thrydydd partïon. Mae rhywfaint o ddata'n cael ei gyhoeddi ar wefan y rheoleiddiwr i helpu'r cyhoedd a chyflogwyr posibl i gadarnhau bod y gweithwyr hyn yn cael eu cofrestru gyda'r rheoleiddwyr, ond cytunir ar hyn gyda'r unigolion fel rhan o'r broses gofrestru ac mae'n cynnwys data penodol yn unig ac nid yr holl wybodaeth a gesglir fel rhan o'r broses gofrestru.

O safbwynt yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, gellir cwblhau'r gwaith o gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol yn ddwyieithog. Bydd y broses gofrestru hefyd yn

helpu'r rheoleiddiwr i gasglu gwybodaeth fwy cywir am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sector a bydd hyn yn helpu i dargedu unrhyw waith recriwtio a chadw rhagweithiol yn y dyfodol. Gall cofrestru hefyd sicrhau cyfleoedd i weithwyr gael mynediad i ddeunyddiau hyfforddiant a chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi mwy o hyder iddynt wneud hynny. Gallai hyn hefyd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n hyderus i ddarparu gwasanaethau i unigolion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Asesiad o'r Effaith economaidd yn dweud y bydd effaith ar fusnesau sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy'r rheoliadau hyn, gan eu bod yn gosod baich newydd ar y gweithlu i dalu ffi gofrestru a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr fynd i gostau i hyfforddi staff i lefelau cymwysterau priodol. Er hynny, mae rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), wedi ymgynghori'n eang â'r sector wrth bennu'r ffi gofrestru i nodi swm cymesur sy'n debyg i ffi cyrff rheoleiddio eraill ledled y DU ac fe roes gynnydd graddedig i'r ffi ar waith i helpu staff (a chyflogwyr lle y telir hyn fel cymhelliant i gadw staff) i dalu'r costau hyn. Edrychir yn fanylach ar effeithiau pellach ar fusnesau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

*Effeithiau negyddol*

O safbwynt yr effeithiau negyddol tymor byr sy'n deillio o'r Rheoliadau hyn, y mater allweddol yw cost ffioedd cofrestru blynyddol ac anghenion hyfforddi ychwanegol a allai ddod i ran unigolion, darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth a'r awdurdodau lleol. Rydym yn cydnabod mai sector tâl isel yw'r sector gofal cymdeithasol ac y bydd gan ffi gymedrol a chymesur oblygiadau i staff a chyflogwyr. Mae tystiolaeth anecdotaidd o'r sector wedi codi pryderon y gallai hyn yrru pobl allan o'r sector neu ei gwneud yn anos i gyflogwyr recriwtio.

Mae Llywodraeth Cymru'n edrych ar yr ysgogiadau sydd gennym a sut y gellir defnyddio'r rhain i helpu i wella telerau ac amodau'r gweithlu. Ceir nifer o raglenni ariennir gan Lywodraeth Cymru hefyd – hy prentisiaethau a Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru – y gall cyflogwyr gael mynediad iddynt i'w helpu i hyfforddi eu staff a sicrhau y gallant ddarparu'r gwasanaethau ansawdd uchel yr ydym oll yn eu disgwyl. Mae ymgyrch Gofalwn.cymru ym maes denu, recriwtio a chadw sy'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd trwy Gofal Cymdeithasol Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hirsefydlog ynghylch recriwtio i ofal cymdeithasol ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n anelu at sicrhau cynrychiolaeth eang o weithwyr (o safbwynt nodweddion gwarchodedig).

3. O ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn sicrhau’r cyfraniad mwyaf i’n hamcanion llesiant a’r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu’n lleddfu unrhyw effeithiau negyddol?

Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae ein hasesiadau effaith yn awgrymu y bydd gan y rheoliadau ar gofrestru'r gweithlu a chymwysterau'r gweithlu nifer o fanteision cadarnhaol i fusnesau, plant a phobl ifanc, a phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Trwy geisio sicrhau bod gweithwyr sy'n parhau i fod yn broffesiynol a medrus gyda llwybrau gyrfa clir a gwell boddhad o ran swyddi, rydym yn gobeithio gweld gwelliant yn nifer y staff sy'n cael eu cadw a fydd yn gwella cynaliadwyedd y sector trwy fwy o ddilyniant o ran gofal a gwell cadernid busnes.

Mae'r rheoliadau'n hybu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi proffil ein gweithlu ymroddedig a'r sector gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd.

Gyda gwell cydnabyddiaeth o'r sgiliau cymaradwy rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gallwn fwrw ymlaen ag ymrwymiad “Cymru Iachach” tuag at integreiddio gwasanaethau yn well, gwell hyfforddi a datblygu a chryfhau'r cyfathrebu rhwng staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol i adeiladu gwasanaethau gofal a chymorth mwy cadarn at y dyfodol.

Byddai hyn yn helpu i fodloni nifer o'r saith nod llesiant (Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru sy’n fwy cyfartal, Cymru â diwylliant bywiog) ond yn bwysicach byddai ganddo fanteision hirach ar gyfer unigolion a busnesau.

Fel y cydnabyddir gan yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg, bydd gweithwyr yn gallu cwblhau'r cofrestriad yn ddwyieithog a bydd y broses hon yn caniatáu inni gasglu data gwell. Byddwn yn parhau i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddeall sut y gellir defnyddio'r data hwn i wella recriwtio a chadw ymhlith y rhan hon o'r gweithlu. Ochr yn ochr â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o bobl erbyn 2050, gall casglu gwybodaeth fwy cywir am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu helpu cyflogwyr ym maes gwasanaethau gofal a chymorth i ddarparu gwasanaethau mwy penodol a phwrpasol i'w cwsmeriaid i helpu i feithrin cadernid a chynaliadwyedd.

O safbwynt yr effeithiau cydraddoldeb a nodwyd, byddwn yn codi'r rhain â rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru.

4. Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan gaiff ei gwblhau?

Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddiwr y gweithlu i fonitro gweithredu'r rheoliadau gan gynnwys yr effeithiau a nodwyd uchod a byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i sicrhau ein bod yn rhoi hyblygrwydd a chymorth iddynt i greu sector gofal cymdeithasol deinamig a cynaliadwy.